



Awgrymiadau da ar gyfer gwella eich effeithlonrwydd

Top Tips for Improving Your Resource Efficiency



Dŵr

Water

Mae cost gwirioneddol cyflenwi dŵr a gwaredu carthion wedi codi 40 y cant ers 2002. Mae eich busnes yn talu ddwywaith am ddŵr – unwaith ar gyfer ei ddarparu ac eto ar gyfer ei waredu. Bydd lleihau faint o ddŵr mae eich busnes yn ei ddefnyddio yn arbed arian o ran costau cyflenwi a biliau gwaredu carthion a gallai eich helpu chi i arbed ar gostau ynni ar gyfer cynhesu neu ar gyfer cemegau i drin dŵr.

Gweler isod rai awgrymiadau syml y gallwch eu dilyn i'ch helpu chi i arbed dŵr.

◆ Mae llawer o ddŵr ac arian yn cael ei fflysio i ffwrdd. Petaech yn gwneud buddsoddiad cymharol fach mewn offer, fel argaeau seston, cyfyngwyr llif, awyryddion, a thapiau neu ddrylliau clicied ar gyfer pibelli dŵr, gallech chi wneud arbedion sylweddol.

◆ Oes gennych chi unrhyw ollyngiadau neu dapiau sy'n diferu? A yw eich tapiau'n troi i ffwrdd yn llawn? Gall tap sy'n diferu wastraffu mwy na 5,500 litr o ddŵr y flwyddyn.

◆ A yw eich ystafelloedd ymolchi yn defnyddio systemau fflysh ddeuol? Gall argaeau seston, cyfyngwyr llif neu dapiau taro leihau faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio.

The real cost of water supply and effluent (waste) disposal has risen by 40 per cent since 2002. Water costs your business twice – once for provision and again for disposal. Reducing the amount of water your business uses will save you money in supply charges and effluent disposal bills, and could also help you save on energy costs for heating or chemicals for water treatment.

Below are some simple tips you can take to help you save water.

◆ A lot of water and money is flushed away. For relatively little investment in equipment such as cistern dams, flow restrictors, aerators, and trigger action taps or guns for hoses, you could make notable savings.

◆ Do you have leaks or dripping taps? Do your taps turn off fully? A dripping tap can waste more than 5,500 litres of water per year.

◆ Do your washrooms use dual-flush systems? Cistern dams, flow restrictors or percussion taps can all reduce water use.



Dŵr • Water

● Bydd gosod tapiau sy'n cau eu hunain neu sydd â synwryddion is-goch yn lleihau faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio a gwella hylendid. Bydd cynnal a chadw tapiau'n rheolaidd yn sicrhau nad yw dyddodion sebon a chen yn achosi gollyngiadau na thapiau sownd. Gellid cynnal a chadw cawodydd hefyd i osgoi rhwystrau a pherfformiad is.

● Gallai gosod awryrdd, sy'n costio oddeutu £5, ar gawod gonfensiynol a ddefnyddir ddwywaith y dydd am bum munud, arbed oddeutu £30 y flwyddyn mewn costau dŵr a charthffosiaeth.

● Pan fyddwch yn prynu offer newydd, dewiswch gynhyrchion dŵr ac ynni effeithlon, a'u gosod nhw'n gywir. Mae llawer o'r cynhyrchion hyn yn arddangos 'Label Dŵr' i'ch helpu chi i gymharu effeithlonrwydd dŵr cynhyrchion.

● A yw pwysedd y dŵr yn rhy uchel? Mae cyfradd llif o 5 i 6 litr y funud yn ddigonol i olchi dwylo. Mae awryrddion a chyfyngwyr llif yn atebion cost isel a all leihau'r defnydd o ddŵr hyd at 70 y cant.

● Os oes rhaid i ddŵr poeth deithio trwy bibelli hir i gyrraedd y man lle caiff ei ddefnyddio, rhaid gwaredu llawer o ddŵr oer yn gyntaf. Efallai y gallech ddod o hyd i ffyrdd i gynhesu'r dŵr yn agosach at ble caiff ei ddefnyddio.

● Mae pecyn cymorth *Rippleeffect* WRAP yn darparu cyngor a chymorth rhad ac am ddim i helpu busnesau i arbed arian trwy ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon. Ewch i www.wrap.org.uk/content/rippleeffect

● Mae deall faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio a faint mae'n costio yn allweddol i wneud gwelliannau. Mae *Water Monitoring Tool* WRAP ar gael ar www.wrap.org.uk/content/water-monitoring-tool-0

● Installing taps that are self-closing or with infrared sensors will reduce water use and improve hygiene. Regular maintenance of taps will ensure that soap deposits and scale don't cause leaks or jammed taps. Showers should also be maintained to avoid blockages and reduced performance.

● Installing an aerator, which costs around £5, on a conventional shower that is used twice a day for five minutes, could save around £30 a year in water and sewerage costs.

● When buying new equipment, choose water and energy efficient products and install them correctly. Many of these products now carry the 'Water Label' to help you easily compare the water efficiency of products.

● Is your water pressure too high? A flow rate of 5 to 6 litres per minute is adequate for hand washing. Tap aerators and flow restrictors are low-cost solutions which can reduce water use by up to 70 per cent.

● If hot water has to travel through long pipes to reach the point of use, a lot of cold water must be run off first. You might be able to find ways to heat the water closer to its point of use.

● WRAP's *Rippleeffect* support package provides free advice and support to help businesses save money by using water more efficiently. Visit www.wrap.org.uk/content/rippleeffect

● Understanding how much water you use and what it is costing is key to making improvements. WRAP's *Water Monitoring Tool* is available at www.wrap.org.uk/content/water-monitoring-tool-0



Dŵr • Water

◆ Gall *Mogden Formula Tool* helpu i bennu faint y dylech chi fod yn ei dalu am garthion. Ewch i www.wrap.org.uk/content/mogden-formula-tool-0

◆ Defnyddiwch y peiriant golchi llestri pan mae'n llawn yn unig, a chofiwch lenwi'r tegell â faint o ddŵr sydd ei angen arnoch, yn hytrach na'i lenwi a chynhesu dŵr nad ydych ei angen.

◆ Gellir defnyddio casgenni dŵr, sy'n hawdd i'w gosod, i gasglu dŵr i ddyfrhau planhigion a golchi tu allan, a gall eich helpu chi i osgoi talu am ddŵr ansawdd yfed yn ddianghenraid.

◆ Gall gollyngiadau pibelli achosi difrod i'ch eiddo a gall y gwaith atgyweirio fod yn ddrud. I'ch helpu chi i ganfod unrhyw ollyngiadau a cholledion dŵr arall, darllenwch eich mesurydd dŵr yn y nos a pheth cyntaf yn y bore, er mwyn i chi gael gweld faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio y tu allan i oriau gwaith. Cofiwch wirio eich pibellau a chysylltu â'ch cyflenwr dŵr a all helpu i ddod o hyd i ollyngiadau.

◆ The *Mogden Formula Tool* can help you determine how much you should be paying for effluent. Visit www.wrap.org.uk/content/mogden-formula-tool-0

◆ Run the dishwasher only when it is full, and remember to fill the kettle with the amount of water you need, rather than heating excess water you don't need.

◆ Water butts, which are simple to fit, can collect water that can be used for plant and outside cleaning. It can help you avoid paying for drinking-quality water unnecessarily.

◆ Pipe leaks can cause damage to your property and be expensive to repair. To help identify leaks and other water losses, take meter readings last thing at night and first thing in the morning so you know how much water is being used outside working hours. Remember to check your pipes and contact your water supplier who can help locate leaks.



www.wrapcymru.org.uk
02920 100 100

 @WRAP_Cymru

Mae WRAP yn Elusen gofrestredig rhif 1159512 ac mae wedi'i gofrestru fel Cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr rhif 4125764. WRAP is a registered Charity No. 1159512 and registered as a Company limited by guarantee in England & Wales No. 4125764.

Cymru Effeithlon
Resource Efficient Wales

0300 123 2020

Arbed ynni, gwastraff a dŵr | Saving on energy, waste and water



Llywodraeth Cymru
Welsh Government